

## CYNGAR (fl. yn y 6ed ganrif), sant

**Enw:** Cyngar

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** sant

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** Hywel David Emanuel

Gŵyr efrydwyr bucheddau'r saint heddiw am ddwy fersiwn o 'fuchedd' Cyngar Sant. Darganfuwyd gopi anghyflawn o'r hynaf o'r ddwy, sef fersiwn a gyfansoddwyd mwy na thebyg yn y 12fed ganrif, yn Wells yng Ngwlad yr Haf yn ddiweddar. Ychwanegwyd y fersiwn arall, sydd yn llawnach ond yn ddiweddarach o ran amser, at argraffiad printiedig 1516 o 'Vitae SS. John of Teignmouth'. Dywedir i Gyngar Sant, wedi iddo sefydlu Congresbury yng Ngwlad yr Haf, groesi i Forgannwg, lle y glaniodd ar lannau Dawan. Ym Morgannwg sefydlodd ddwy fynachlog mewn mannau nas lleolwyd, a daeth i gyffyrddiad â'r brenin Poullentus ac â thywysog o'r enw Pebliau. Yn ôl 'bunchedd' Cybi Sant, lle y dywedir fod Cybi a Chyngar yn perthyn i'w gilydd, cyd-deithiodd Cyngar gyda Chybi - yn gyntaf i lwerddon ac wedyn i Fôn. Cyngar yw enw nawddsant eglwys Llangefni ym Môn ac eglwys yr Hôb yn Si'r Fflint. Dywed ail 'fuchedd' Cyngar Sant mai yr un oedd ef â Docciinus Sant, ond mae'n amheus a oes rhewsm digonol dros dderbyn hyn yn derfynol. Anrhydeddir Cyngar Sant hefyd yng Ngwlad yr Haf, yng Nghernyw, ac yn Llydaw. Fel canlyniad i ddryswwch rhwng mwy nag un sant yn dwyn yr enw hwn, enwir 7 a 27 Tachwedd fel dydd gŵyl Cyngar Sant.

### Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

### Ffynonellau

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*, 248-53

Horstman (ed.), *Nova legenda Anglie as collected by John of Tynemouth, John Capgrave, and others, and first printed, with new lives, now re-edited with fresh material from MS and printed sources by C. Horstman* (1901), i, 248-54

*Journal of Theological Studies*, xx, 97-108; xxiii, 15-22

*Analecta Bollandiana*, xlvi, 100-20

*Antiquity*, 1945, 32-43, 85-95

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cyngar](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q3463717](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government